



**Canllawiau dros dro ar gyfer partneriaethau Addysg
Gychwynnol Athrawon (AGA) dros gyfnod y Coronafeirws
(COVID-19)**

OGL

ISBN digidol 978 1 80038 463 7
© Hawlfraint y Goron Ebrill 2020
WG40563

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda llywodraethau eraill y DU i sicrhau dull cyson sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd i ymateb i sefyllfa'r Coronafeirws.

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ac maent yn seiliedig ar gyngor a roddwyd eisoes ar lefel y DU mewn perthynas â phandemig y Coronafeirws. Rhoddir diweddariadau os bydd unrhyw beth yn newid.

Canllawiau cyffredinol

Caiff canllawiau cyffredinol ynghylch y Coronafeirws eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar eu gwefannau, <https://llyw.cymru/coronafeirws> a <https://icc.qig.cymru/>. Cânt eu diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf.

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg wedi cael gwybod y bydd angen cymryd camau penodol, ac ystyrir na fydd unrhyw newidiadau y bydd angen eu gweithredu yn effeithio ar y gofynion o ran achredu rhaglenni o ystyried yr amgylchiadau eithriadol sydd wedi codi yn sgil COVID-19.

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'r camau cyffredinol y bydd angen i ddarparwyr AGA eu cymryd, yn benodol mewn perthynas ag unrhyw fyfyrwr sy'n dychwelyd, fel y bo'n briodol, ac â'r broses dderbyn ar gyfer cohort 2020/21. Bydd y trafodaethau yn parhau rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr AGA ar faterion penodol nad yw'r ddogfen hon yn rhoi sylw iddynt, a chaiff canllawiau pellach eu cyhoeddi.

Camau cyffredinol y bydd angen i ddarparwyr AGA eu cymryd

Darperir canllawiau dros dro isod i ddarparwyr AGA mewn perthynas â phob grŵp myfyrwr. Amlinellir hefyd y meini prawf achredu priodol ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC) yn yr adran nesaf.

Grŵp myfyrwr	Cyngor i ddarparwyr AGA
Myfyrwr TAR presennol	<p>Daeth lleoliadau AGA i fyfyrwr i ben o'r wythnos yn dechrau 16 Mawrth 2020.</p> <p>Nid yw myfyrwr yn gallu cwblhau nifer gofynnol yr wythnosau o leoliad mewn ysgol. Dylid ystyried hyn wrth asesu addasrwydd myfyriwr i gael Statws Athro Cymwysedig (SAC), ac mae'r trefniadau wedi'u nodi isod.</p>
Israddedigion presennol	<p>Daeth lleoliadau AGA i fyfyrwr i ben o'r wythnos yn dechrau 16 Mawrth 2020.</p> <p>Ar gyfer myfyrwr Lefel 4 a Lefel 5 (y rheini ym mlynnyddoedd 1 a 2 fel rheol) o raglenni israddedig, cydnabyddir nad yw myfyrwr wedi gallu cwblhau lefel ofynnol yr asesiad mewn ysgol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda darparwyr AGA i gytuno ar fethodoleg i wneud iawn am y diffyg hwn mewn blynyddoedd astudio wedyn.</p>

	<p>Ar gyfer myfyrwyr Lefel 6 (blwyddyn 3 fel rheol), bydd darparwyr yn gallu cynnal asesiad o addasrwydd myfyriwr i gael SAC ar sail ei waith academaidd a'i brofiad addysgu (ar leoliad), hyd yn oed lle na chyrrhaeddwyd y trothwy 24 wythnos.</p>
Myfyrwyr rhyngwladol	<p>Mae gofynion penodol yn achos myfyrwyr rhyngwladol, a bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda darparwyr AGA i roi sylw i'r materion hyn.</p> <p>Dylai darparwyr AGA roi gwybod i Lywodraeth Cymru faint o unigolion y mae hyn yn effeithio arnynt a'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt. Cyhoeddir canllawiau pellach.</p>
Myfyrwyr Rhaglen Athrawon Graddedig/myfyrwyr Teach First (TF)	<p>Mae rhai myfyrwyr yn dilyn y Rhaglen Athrawon Graddedig heb allu cwblhau eu cyfnod hyfforddi.</p> <p>Fel yn achos myfyrwyr TAR ac israddedigion, mae gan ddarparwyr AGA y disgrisiwn i asesu addasrwydd y myfyrwyr hyn i gael SAC o ddyddiad cau ysgol eu lleoliad.</p> <p>Os oes achosion unigol lle na fydd yr asesiad hwn yn arwain at ddyfarnu SAC i fyfyriwr, bydd y darparwyr yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru a chyhoeddir canllawiau pellach.</p> <p>Mae rhai myfyrwyr yn dilyn rhaglenni TF. Er bod y rhain yn rhaglenni hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru, darparwr Cymreig yw'r corff achredu. Disgwylir, felly, i'r corff achredu asesu'r myfyrwyr hyn o ran SAC yn ôl yr un disgrisiwn â myfyrwyr eraill. Dylai'r trefniadau ar gyfer unrhyw astudio a dyfarnu academaidd fod yn unol hefyd â'r canllawiau eraill yn y ddogfen hon.</p>

Meini prawf achredu SAC

Er bod y meini prawf achredu ar gyfer SAC yn cynnwys gofyniad i leoliadau ysgol bara:

- 32 wythnos ar gyfer pob rhaglen israddedig bedair blynedd ysgolion cynradd
- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen israddedig dwy a thair blynedd
- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen ôl-raddedig ysgolion uwchradd
- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen ôl-raddedig ysgolion cynradd

mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd y cohort presennol sy'n dilyn yr holl raglenni AGA achrededig yn gallu cyflawni'r telerau hyn, a bydd angen i ddarparwyr ddilyn y camau isod.

1. Gall darparwyr AGA gynnal asesiad o addasrwydd myfyriwr i gael SAC ar sail ei gyflawniad yn ei waith academaidd a'i brofiad addysgu (ar leoliad), hyd yn oed lle na chyrhaeddwyd y trothwy 24 wythnos.
2. Lle nodir bod myfyrrwyr eisoes yn bodloni'r safonau gofynnol neu eu bod ar lwybr clir i fodloni'r safonau, yna bydd gan ddarparwyr AGA y disgrisiwn i ddyfarnu SAC.
3. Bydd darparwyr AGA, drwy Gyngor Prifysgolion ac Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon (USCET), yn cytuno ar ddull cyffredin o gynnal yr asesiad hwn er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.
4. Bydd darparwyr AGA yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ynghylch niferoedd y myfyrrwyr yr aseswyd nad ydynt yn bodloni'r gofynion uchod. Bydd Llywodraeth Cymru a darparwyr AGA yn parhau i gydweithio i ddatblygu dull gweithredu i fynd i'r afael â gofynion y myfyrrwyr hyn.
5. Mater i'r darparwr AGA fydd asesu addasrwydd myfyriwr i gael SAC, a gellir cynnal asesiadau o'r fath ar sail crebwyll proffesiynol ac arbenigedd y darparwr.

Darparu tystysgrif SAC

Yn unol â'r trefniadau presennol, bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn parhau i roi tystysgrifau i'r myfyrrwyr hynny y mae wedi cael gwybod eu bod wedi bodloni'r safonau gofynnol i gael SAC.

Cymwysterau academaidd

Dylai pob darparwr AGA barhau i gyflawni holl elfennau eraill eu rhaglenni AGA drwy eu trefniadau lleol i weithio o bell.

Caiff y gwaith o asesu proses ddyfarnu'r cymwysterau academaidd ei wneud yn ôl disgrisiwn cyrff dyfarnu unigol drwy drefniadau sydd eisoes yn bodoli.

Achosion unigol

Lle bydd myfyrrwyr unigol yn dal y feirws neu'n gorfod hunanynysu, bydd angen i ddarparwyr AGA asesu'r achosion hyn yn unigol.

Dylai darparwyr AGA roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw achosion unigol lle na fu'n bosibl i fyfyrwyr gwblhau'r rhaglen.

Os na fydd modd i fyfyrwr gwblhau ei gymhwyster academaidd neu gyflawni SAC o fewn y flwyddyn academaidd gyfredol, bydd angen ei asesu'n unigol.

Y broses dderbyn

Bydd y broses o recriwtio myfyrrwyr i gohort 2020/21 yn parhau er mwyn sicrhau parhad yn y ddarpariaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd modd dilyn y broses arferol o dan yr amgylchiadau presennol, ac mae proses ddiwygiedig wedi'i nodi isod ar gyfer y cohort hwn.

- Asesu'r cais – fel arfer.

- Cyfweld ag unigolion – i'w wneud o bell.
- Tasg ysgrifenedig – i'w chyflawni o bell os oes angen. Mater i'r darparwr fydd penderfynu p'un a yw am ddefnyddio tasg ysgrifenedig i ategu'r cyfweliad.
- Cyfweliad grŵp – nid oes gofyniad i gynnal cyfweliad grŵp am y tro.
- Profion Llythrennedd a Rhifedd a phrofion Cyfwerthedd – disgwylir i'r rhain gael eu cynnal yn nes ymlaen yn yr haf os bydd y sefyllfa yn caniatáu neu cyn gynted â phosibl ym mlwyddyn astudio 2020/21. Mae'r gofynion TGAU sydd wedi'u nodi yn y meini prawf achredu yn dweud ar hyn o bryd y dylai'r rhain fod wedi'u cwblhau erbyn i'r myfyriwr ddechrau ar raglen. I gydnabod yr amgylchiadau eithriadol, ni fydd Llywodraeth Cymru yn mynnu'r gofyniad hwn cyn i fyfyrwr gael ei dderbyn i'r cohort hwn os nad yw'r amgylchiadau yn caniatáu i'r profion ddigwydd.

Gan ddilyn y broses uchod ar gyfer derbyn myfyrwyr, rhoddir y disgresiwn i ddarparwyr AGA gynnig llefydd ar raglenni ar sail cyfweliad a thasg ysgrifenedig (os caiff ei defnyddio). Rhaid i unrhyw gynigion a wneir gynnwys canllawiau clir i fyfyrwyr bod yn rhaid cyflawni'r gofynion mynediad cyfredol o hyd, ac y gallai methu â gwneud hynny arwain at dynnu myfyriwr oddi ar raglen.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau pellach yn egluro faint o amser a sawl cynnig a fydd ar gael i gyflawni'r gofynion hyn.

Y camau nesaf

1. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa bob dydd, yn unol â chyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru.
2. Cyhoeddir canllawiau pellach yn unol ag unrhyw newidiadau i gyngor gan y cyrff perthnasol.
3. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda darparwyr AGA i ddatblygu canllawiau pellach lle bo'n ofynnol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd wythnosol gyda darparwyr AGA i roi sylw i ddatblygiadau, diweddariadau ac unrhyw faterion sy'n codi.
4. Rhaid i ddarparwyr AGA roi gwybod i Lywodraeth Cymru ar unwaith am unrhyw faterion eraill sy'n codi yn ystod y cyfnod hwn, fel y gellir cyhoeddi canllawiau pellach.
5. **I gael y cyngor diweddaraf gan Lywodraeth Cymru, ewch i llyw.cymru/coronafeirws**